

Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 1

Teitl y polisi a'i ddiben (amlinelliad cryno):	Safonau'r Gymraeg. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn benodol ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif. 7) 2018 i osod safonau ar gyrrff yn y sector iechyd (Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Cynghorau Iechyd Cymuned a Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru)
Swyddog:	Eleri Davies
Adran:	Uned y Gymraeg
Dyddiad:	13/11/2017
Llofnod:	

1. Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad.

Mae hyrwyddo a datblygiad yr iaith Gymraeg yng Nghymru yn amcan polisi hirdymor i Lywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei weledigaeth i gynyddu nifer y siaradwyr i filiwn yn ei strategaeth *Cymraeg 2050* ac, yn fwy perthnasol i'r cynnig hwn, *Mwy na geiriau ... Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016 – 2019*.

Ers 1993, roedd rheoleiddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y sector gyhoeddus wedi ei gyflawni drwy Gynlluniau Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Cadarnhaodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd yn darparu system ar gyfer creu safonau'r Gymraeg a fydd yn y pen draw yn disodli Cynlluniau Iaith Gymraeg cyrff. Dechreuodd y broses o ddisodli'r Cynlluniau Iaith Gymraeg ym Mawrth 2015, pan wnaeth y set gyntaf o Reoliadau (*Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015*) osod safonau ar Weinidogion Cymru, Llywodraeth Leol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae'r Rheoliadau hyn yn sail i'r Rheoliadau arfaethedig. Fodd bynnag mae newidiadau wedi eu gwneud i adlewyrchu natur wahanol cyrff yn y sector iechyd.

Mae'r Rheoliadau yn pennu ystod o safonau y gellid ei gosod ar gorff ond mater i Gomisiynydd y Gymraeg yw penderfynu pa safonau i'w gosod ar gorff drwy Hysbysiad Cydymffurfio. Yn ogystal, mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn pennu'r dyddiad y mae'n rhaid i'r corff gydymffurfio â safon (o leiaf 6 mis o ddyddiad yr Hysbysiad Cydymffurfio).

Bwriad y Rheoliadau hyn, fel yr holl Reoliadau Safonau'r Gymraeg, yw creu safonau sy'n rhoi hawliau gorfodadwy i siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â chyrrff yn y sector iechyd (ceir rhestr o'r cyrrff yn Atodiad 6 i'r Rheoliadau). Mae'r safonau hefyd yn rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio i'r cyrrff hyn ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Amcan craidd y polisi a'r Rheoliadau yw sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg gan gyrrff cyhoeddus yng Nghymru.

Cyfrifoldeb Comisiynydd y Gymraeg yw monitro a sicrhau bod y cyrff yn cydymffurfio â'u safonau rhagnodedig (yn ddarostyngedig i'r broses apelio a amlinellir yn y Mesur).

- 2. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o'r canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i'r polisi. Pa gamau a roddwyd ar waith gennych i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?**

Mewnol

Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Safonau a Thriwlynys Llywodraeth Cymru yn Nhachwedd 2014, ond fe'i ailenwyd yn Fwrdd Rhaglen Safonau'r Gymraeg ym Mawrth 2015 yn dilyn sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg. Roedd y Bwrdd yn cyfarfod bod 6 wythnos ac yn cynnwys cynrychiolaeth o adrannau canlynol Llywodraeth Cymru: Llywodraeth Leol a Chymunedau, Iechyd, Dyfodol Cynaliadwy, Addysg a Sgiliau, Cyfathrebu, Adnoddau Dynol mewnol a'r Gwasanaethau Cyfreithiol. Cylch gwaith y Bwrdd Rhaglen oedd sicrhau llywodraethu effeithiol yn ystod y broses o ddrafftio Rheoliadau.

Wrth ddrafftio'r Rheoliadau arfaethedig rydym wedi cysylltu'n uniongyrchol â chydweithwyr polisi ar draws y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn benodol Uned Polisi'r Gymraeg y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ogystal, mae'r cyfeiriad polisi ar gyfer y Rheoliadau arfaethedig wedi'i gyflwyno i Grŵp Gorchwyl y Gweinidog ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd bellach yn cael ei adnabod fel Bwrdd Partneriaeth y Gymraeg mewn Gwasanaethau Iechyd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol ac yn goruchwyllo'r broses o integreiddio anghenion bobl i siarad Cymraeg i mewn i wasanaethau gofal iechyd.

Allanol

Mae'r adroddiad a gyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg i Weinidogion Cymru yn dilyn ei Hymchwiliad Safonau wedi dylanwadu ar y Rheoliadau. Fel rhan o'r broses hwn, cysylltodd Comisiynydd y Gymraeg â'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r safonau arfaethedig. Rhoddwyd copi drafft o Reoliadau Rhif 1 i'r cyrff a gofynnwyd iddynt i ba raddau y byddent yn medru cydymffurfio â'r safonau.

Fel rhan o'r ymchwiliad, derbyniodd y Comisiynydd ymatebion oddi wrth:

- Yr holl gyrff yn Atodlen 6 o'r Rheoliadau arfaethedig
- 108 aelod o'r cyhoedd
- 5 ymateb gan grwpiau diddordeb a lobïo (yn cynnwys Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol i'r Iaith a Mentrau Iaith Cymru)
- Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

Ar ôl derbyn adroddiad Comisiynydd y Gymraeg, mae swyddogion wedi ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid allanol, yn cynnwys Swyddogion Iaith y GIG, i ddatblygu'r polisi.

Oherwydd ymrwymiad a wnaed gan Weinidogion Cymru yn eu hymateb i Adroddiad Ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd, bu'r Rheoliadau yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn am 13 wythnos o Orffennaf 2016.

Roedd yr ymchwiliad yn agored i bawb. Paratowyd fersiwn hawdd ei deall o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb a chynhaliwyd dau ddigwyddiad cyhoeddus er mwyn hybu cyfranogiad gan bob sector o'r gymuned.

Ystyriwyd pob agwedd ar yr ymatebion a dderbyniwyd a diwygiwyd y Rheoliadau drafft yn sgil yr ymatebion hyn. Yn ystod y broses hwn ystyriwyd anghenion y grwpiau gwarchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Gwahoddwyd bob corff a all fod yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau i gwblhau dau Aseiad Effaith Rheoleiddio (RIA), un ar ddechrau'r broses ac un yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd yr aseidiadau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Goblygiadau ariannol posibl y Rheoliadau arfaethedig
- Manteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol ac ieithyddol y drefn newydd.

3. Rhaid i chi seilio eich penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych? Rhestrwch

ffynhonnell y dystiolaeth e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ystyriwch chi fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes yna fylchau yn y dystiolaeth?

Dangosodd canlyniadau cyfrifiad 2011 ostyngiad bach yn nifer a chanran y siaradwr Cymraeg 3+ oed yng Nghymru, gyda'r cyfanswm yn 19%/562,000 (-2% ers 2001). Roedd y gostyngiad yn fwyaf amlwg yng nghadarnleoedd y Gymraeg, sef Gwynedd, Caerfyrddin a Cheredigion, er i rai ardaloedd weld cynnydd bach yn benodol yn y nifer o blant 5-9 oed sy'n siarad Cymraeg. Yn gyffredinol, dyma'r grŵp oedran oedd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (38.2% o gyfanswm y siaradwyr Cymraeg).

Rydym hefyd wedi defnyddio tystiolaeth o Adroddiadau Ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg ac o Gynlluniau Iaith Gymraeg y cyrff.

Yn ogystal defnyddiwyd *Mwy na geiriau... Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal 2016 -2019* fel tystiolaeth wrth ddatblygu'r Rheoliadau. Mae'r fframwaith strategol hwn wedi cael ei seilio ar ymchwil sy'n dangos pwysigrwydd gallu defnyddio dewis iaith i bobl mewn gofal. Datblygwyd y fframwaith strategol mewn partneriaeth agos gyda darparwyr gofal iechyd.

Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd yr ydych wedi'u nodi a allai wella neu hyrwyddo cydraddoldeb.

Effaith

Cwblhewch yr adran nesaf i ddangos sut allai'r polisi / penderfyniad / arfer effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar grwpiau gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (ceir rhagor o wybodaeth yn y ddogfen ganllaw ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb).

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio* â chynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Tynnwch sylw at unrhyw fylchau yn y dystiolaeth ac eglurwch a ydych yn bwriadu llenwi'r bylchau hyn a sut rydych yn bwriadu gwneud hynny.

4.1 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoed?

Oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
<p>Pobl iau</p> <p><i>(Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed)</i></p>	√			<p>Nodwyd pobl iau yn <i>Mwy na geiriau..</i> Fframwaith Strategol fel grŵp sydd a mwy o angen gwasanaethau Cymraeg wrth y cyrff restrir yn Atodlen 6 o'r Rheoliadau arfaethedig. Mae'r dystiolaeth sy'n sail i'r Fframwaith Strategol yn dangos bod rhai plant, yn enwedig y rhai ieuengaf, ond yn gallu siarad Cymraeg.</p> <p>Mae deddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol hefyd yn nodi eu bod yn bwysig bod plant yn medru defnyddio eu hiaith eu hunain. Gwelir hyn yn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 sy'n cyflwyno hawliau Confensiwn y Cenhedloedd yng Nghymru.</p> <p>Bydd y Rheoliadau arfaethedig yn rhoi hawl</p>

			<p>gyfreithiol gorfodadwy i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg pan yn derbyn gwasanaethau, ac yn cynnig ffyrdd o wneud iawn os nad yw hyn yn digwydd.</p> <p>Bydd hyn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ifanc yn gallu derbyn gwasanaeth sy'n ecwitiol gyda'r hyn y gall siaradwr Saesneg ei ddisgwyl.</p>
Pobl 18- 50 oed	√		<p>Mae <i>Mwy na geiriau...</i> yn nodi er bod gan rai grwpiau o bobl mwy o angen derbyn eu gwasanaethau yn Gymraeg, i nifer o siaradwyr Cymraeg mae'r Gymraeg yn elfen bwysig o'u gofal. Mae hyn wedi'i gryfhau gan yr astudiaethau achos y cyfeirir atynt yn y fframwaith strategol.</p> <p>Mae'r Rheoliadau arfaethedig yn rhoi hawliau cyfreithiol gorfodadwy i ddefnyddio'r Gymraeg pan yn ymwneud gyda darparwyr gofal iechyd ac yn nodi ffyrdd o wneud iawn os nad yw hyn yn digwydd.</p>

<p>Pobl hŷn (50+)</p>			<p>Nodwyd pobl hŷn yn Fframwaith Strategol <i>Mwy na geiriau...</i> fel grŵp sydd a mwy o angen gwasanaethau Cymraeg oddi wrth y cyrff restrir yn Atodlen 6 o'r Rheoliadau arfaethedig.</p> <p>Mae'r ffilmiau astudiaeth achos sy'n gysylltiedig â <i>Mwy na geiriau...</i> yn egluro pwysigrwydd gallu defnyddio'r Gymraeg i bobl hŷn, yn enwedig os ydynt yn dioddef o ddementia, strôc neu gyflyrau arall sy'n gwneud iddynt droi yn ôl at ei hiaith gyntaf a cholli'r gallu i ddefnyddio Saesneg.</p> <p>Bydd y Rheoliadau arfaethedig yn rhoi hawliau cyfreithiol gorfodadwy i bobl hŷn i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg ac yn nodi ffordd o wneud iawn os nad yw hyn yn digwydd.</p> <p>Bydd hyn hefyd yn gwireddu yr ymrwymiad yn Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru sy'n dweud bod hawl gan bobl hŷn i gyfathrebu yn eu</p>
---------------------------	--	--	--

				dewis iaith.
--	--	--	--	--------------

4.2 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu bod yn anabl?

Nam	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Nam ar y golwg	√			Bydd y Rheoliadau arfaethedig yn rhoi hawliau cyfreithiol i'r rheini sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw (megis yr 20,000 o siaradwyr Cymraeg, yn ôl amcangyfrif yr RNIB, sydd â phroblemau gyda'u golwg) a'r rheini sydd ag anabledd corfforol i gael gwasanaethau yn Gymraeg. Gall cael mynediad i wasanaethau cyfrwng Cymraeg <i>'could help reduce stress and concern'</i> ¹ y mae bobl sydd ag anghenion iechyd ychwanegol (megis nam ar eu golwg neu eu clyw,
Nam ar y clyw	√			
Anabledd corfforol	√			

¹ Ymateb RNIB i ymgynghoriad *Mwy na geiriau ...*

				neu anabledd corfforol) yn eu teimlo pan yn defnyddio gwasanaethau gofal iechyd.
Anabledd dysgu	√			<p>Nodir uchod bod y bobl ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bobl ag anabledd dysgu • defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl • cleifion strôc • cleifion â dementia <p>fwy o angen derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Bydd y Rheoliadau arfaethedig y rhoi hawliau gorfodadwy cyfreithiol i'r grwpiau hyn dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg.</p>
Problem iechyd meddwl	√			
Namau eraill	√			

4.3 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu rhyw (dyn neu ddynes)?

Rhyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Gwryw			√	Bydd y Rheoliadau arfaethedig y rhoi hawliau

Benyw			√	gorfodadwy cyfreithiol i bobl dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg beth bynnag fo'u rhyw.
-------	--	--	---	--

4.4 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu bod yn drawsryweddol?

Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
			√	Bydd y Rheoliadau arfaethedig y rhoi hawliau gorfodadwy cyfreithiol i bobl dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg waeth beth yw eu statws trawsryweddol

4.5 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

Priodas a Phartneriaeth Sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Priodas			√	Bydd y

				Rheoliadau arfaethedig y rhoi hawliau gorfodadwy cyfreithiol i bobl dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg beth bynnag yw eu statws priodasol/partneriaeth sifil.
Partneriaeth Sifil			√	

4.6 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?

Priodas a Phartneriaeth Sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Beichiogrwydd	√			Bydd cyflwyno safonau'r Gymraeg yn sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu gwneud yn fwy hygyrch i bawb, yn cynnwys unigolion yn ystod cyfnod eu beichiogrwydd neu gyfnod mamolaeth.
Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni)	√			Mae'r safonau gweithredu arfaethedig o fewn y Rheoliadau

				<p>arfaethedig yn rhoi mwy o gyfle i gyflogeion cyrff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg i dderbyn ac i drafod gwybodaeth AD megis materion cyflogaeth neu faterion polisi mewnol yn Gymraeg.</p>
--	--	--	--	--

4.7 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hil?

Hil	Cadarnhao I	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Pobl o leiafrif ethnig (e.e. Asiaidd, Du)			√	Mae'r Rheoliadau arfaethedig yn rhoi hawliau cyfreithiol gorfodadwy i bobl dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg waeth beth yw eu hethnigrwydd, eu tras genedlaethol, eu statws ceisiwr lloches, eu statws sipsi neu deithiwr, eu statws mudwr neu unrhyw agwedd ar hil
Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig)			√	
Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid			√	
Sipsiwn a Theithwyr			√	
Mudwyr			√	

Eraill			√	unigolyn.
--------	--	--	---	-----------

4.8 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?

Crefydd a chred neu ddiffyg cred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Gwahanol grwpiau crefyddol gan gynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Eraill (nodwch)			√	Bydd y Rheoliadau arfaethedig y rhoi hawliau gorfodadwy cyfreithiol i bobl dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg beth bynnag yw eu crefydd neu eu cred/anghred.
Cred e.e. Dyneiddwyr			√	
Diffyg cred			√	

4.9 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?

Cyfeiriadedd Rhywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Dynion hoyw			√	Bydd y Rheoliadau

				arfaethedig y rhoi hawliau gorfodadwy cyfreithiol bobl i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol.
Lesbiaid			√	
Deurywiol			√	

4.10 A ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? Cyfeiriwch at bwynt 1.4 o Atodiad A Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Canllawiau ar gyfer rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol.

Hawliau Dynol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Dibwys	Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio?
Hawliau Dynol yn cynnwys Deddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig	√			Bydd y Rheoliadau arfaethedig y rhoi hawliau gorfodadwy cyfreithiol i siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Yng nghyd-destun plant, mae hyn yn cefnogi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i ddarpariaeth ar hawliau ieithyddol plant.

Os ydych wedi nodi unrhyw effeithiau (ac eithrio rhai dibwys), gadarnhaol neu negyddol, ar unrhyw grŵp â nodweddion gwarchoddedig, cwblhewch Rhan 2.

Dim ond os nad oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol o gwbl neu effeithiau dibwys yn unig y dylech symud ymlaen yn uniongyrchol i Ran 2 a llofnodi'r Aseiad.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2

1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasgloch ac a ystyriwyd gennych yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:

1.1 Sut y gallai, neu sut y mae'r polisi'n helpu i wella / hyrwyddo cyfle cyfartal?

Er enghraifft, mesurau cadarnhaol a gynlluniwyd i fynd i'r afael ag anfantais a chyrraedd gwahanol gymunedau neu grwpiau gwarchoddedig?

Ni ddylai neb yn unrhyw ran o Gymru fethu cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu i ddysgu Cymraeg oherwydd ei hil, ethnigrwydd, anabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd. Dylai gwasanaethau Cymraeg fod ar gael ac yn agored i bob cymuned, yn cynnwys cymunedau difreintiedig a'r rheini sydd ag amrywiaeth ethnig.

Mae'r polisi hwn yn ymateb yn rhannol i'r anghydraddoldeb amlwg yn safon gwasanaethau a ddarperir ar draws darpariaeth gofal iechyd yng Nghymru i siaradwyr Cymraeg o'i gymharu a siaradwyr di-Gymraeg. Bydd y polisi yn sicrhau bod pobl sy'n dymuno siarad Cymraeg (oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig neu eu hunaniaeth ieithyddol) yn medru cyfathrebu a datgan eu anghenion i ddarparwyr gofal iechyd yn eu hiaith eu hunain. Gan fod iaith yn cael ei gydnabod, yn eang, fel elfen graidd o ddarpariaeth gofal iechyd, bydd yr hawliau yn y Rheoliadau arfaethedig yn cyfrannu tuag at sicrhau bod y gwasanaethau mae siaradwyr Cymraeg yn eu derbyn yn gyfartal â'r rheini a dderbynnir gan siaradwyr di-Gymraeg.

Rydym yn rhagweld y bydd y safonau yn y Rheoliadau arfaethedig yn cael effaith bositif ar siaradwyr Cymraeg ac yn hyrwyddo cydraddoldeb drwy sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn, neu gam yn agosach at fod yn gyfartal â gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael yn Saesneg.

Gall eu heffaith gael ei alw yn effaith wahaniaethol gadarnhaol oherwydd bod y polisi yn cael ei lywio gan yr angen i gynnig cyfleoedd cyfartal yn Gymraeg a Saesneg ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus, er y bydd y gwasanaethau hynny ond yn cael eu defnyddio gan nifer fach o ddinasyddion. Hyd yn hyn mae gwasanaethau cyfrwng Cymraeg wedi eu gorfodi drwy Gynlluniau Iaith Gymraeg statudol. Er bod y cynlluniau wedi bod yn llwyddiannus wrth godi proffil gwasanaethau a ddylai fod ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg, maent yn ddiffygiol oherwydd nag oes modd rhoi sancsiynau pan nad yw gofynion sylfaenol cynllun wedi'u gweithredu. Mae cyflwyno safonau yn cydnabod yr angen i ailedrych ar yr anghydbwysedd cyfredol yn y cyfleoedd sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau dyddiol.

Amcan y safonau yw i sicrhau nag yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar draws y sbectwm o wasanaethau ddarperir gan gyrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd (gweler rhestr yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau). Serch hynny, fe'u drafftwyd gyda ymwybyddiaeth lawn o'r ffaith bod y defnydd o'r Gymraeg yn amrywio ar draws Cymru.

Mater i Gomisiynydd y Gymraeg fel rheoleiddiwr fydd penderfynu pa safonau y dylid eu gwneud yn benodol gymwys i gorff ac i fonitro ei gydymffurfiaeth â'r safon. Mae hefyd yn ofynnol iddi fod yn rhesymol a chymesur wrth wneud hyn ac i gyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n gydnaws â deddfwriaeth hawliau dynol a chydaddoldeb.

1.2 Sut y gallai / sut y mae'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?

Amcan cyflwyno safonau'r Gymraeg yw helpu'r cyhoedd ac aelodau staff neu weithwyr cyrff sy'n ddarostyngedig i safonau i deimlo'n fwy hyderus, a bod ganddynt gefnogaeth, wrth ddefnyddio eu hawliau i wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae'r safonau yn cynnig ystod o hawliau clir sydd yn pennu, heb ddisgresiwn, beth gall y cyhoedd ddisgwyl gan gorff. Mae yn wahanol iawn i'r Cynlluniau Iaith personol sydd, mewn rhai achosion, yn ymddangos yn amwys.

Mae'r safonau yn adeiladu ar yr egwyddor sy'n greiddiol i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae'r safonau yn cyfrannu tuag at sicrhau nag yw defnyddwyr y gwasanaeth o dan anfantais os ydynt yn gofyn am wasanaeth yn Gymraeg.

Fe ddaw un newid arwyddocaol yn sgil cyflwyno safonau gweithredu sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg gan gyrff. Byddant yn rhoi mwy o hawliau i gyflogeion dderbyn gwasanaethau gyfrwng Cymraeg fel eu bod yn teimlo yn fwy hyderus a chyfforddus i drafod materion personol sy'n ymwneud â gwaith (megis aflonyddwch, gwahaniaethu neu erledigaeth yn y gweithle) yn eu dewis iaith.

Bydd y safonau gweithredu hefyd yn gofyn i gyrff gynnig hyfforddiant Cymraeg i'w cyflogeion ynghyd ag adnoddau i'w helpu i wella ei sgiliau Cymraeg. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn galluogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ogystal â gwella sgiliau a hyder, a fydd yn arwain at wasanaethau o ansawdd well i'r holl gymunedau a grwpiau gwarchoddedig.

1.3 Sut y gallai / sut y mae'r polisi'n effeithio ar wella / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

Mae gan yr holl gyrff a enwir yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau Gynlluniau Iaith Gymraeg o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Maent yn adrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithrediad y cynlluniau hyn. Oherwydd hyn mae rhai o'r gyrff eisoes yn gweithredu'n unol ag ysbryd y safonau ac felly dylent fedru trosglwyddo o'u cynllun i gydymffurfio â'r safonau yn gymharol ddi-dor.

Mae'r safonau hefyd yn cyfeirio at yr angen i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw a gweladwy ym mhob rhan o gymdeithas yng Nghymru. Mae'r polisi yn gwella cydlyniant cymunedol ac yn annog perthnasau da drwy sicrhau bod hawliau siaradwyr Cymraeg yn rhan annatod o'r modd y mae'r gyrff yn Atodlen 6 yn darparu gwasanaethau. Mae hyn yn cyfrannu at sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo bod eu anghenion, eu hawliau a'u dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd cymunedol Cymru.

2. Cryfhau'r polisi

2.1 Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol (niweidiol) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchoddedig neu ar gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau am hyn?

Pa newidiadau / camau ymarferol allai helpu i leihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1?

Ddim yn berthnasol

2.2 Os na roddir unrhyw gamau ar waith i ddileu neu liniaru effaith negyddol / niweidiol, rhowch resymau pam.

(Cofiwch, os ydych chi wedi canfod gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi, rhaid newid neu adolygu'r polisi.)

Ddim yn berthnasol

3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut yr ewch chi ati i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?

Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol sy'n mynd i gael ei gyflawni mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgynghoriadau, monitro penodol ac ati).

Cyfrifoldeb Comisiynydd y Gymraeg fydd monitro cydymffurfiaeth â'r safonau. Mater i'r Comisiynydd fydd penderfynu sut fydd hyn yn digwydd ond mae'n debygol o gynnwys cyfuniad o adroddiad blynyddol, hunanasesiad, hapwiriadau ac ymchwiliadau.

Os daw i'r amlwg bod angen rhagor o safonau i gyrraedd y nod polisi, Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu a oes angen drafftio safonau newydd neu ddiwygio'r rhai presennol.

Bydd canlyniadau'r holl asesiadau effaith lle mae'r effaith yn sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

4. Datganiad

Dileer fel y bo'n briodol:

Mae'r polisi'n effeithio'n sylweddol ar faterion cydraddoldeb

Y swyddog sy'n cyflawni'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Enw:
Eleri Davies
Adran:
Uned y Gymraeg
Dyddiad:
17/11/2017
Llofnod:
Pennaeth Adran (Llofnod)
Enw:
Bethan Webb
Teitl swydd ac adran:
Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Gymraeg
Dyddiad:
17/11/2017
Llofnod:
Dyddiad adolygu: ddim yn berthnasol